# Gwasanaethau rhaglenni ar-alw: pwy sydd angen hysbysu Ofcom?

Datganiad

**DATGANIAD:**

Dyddiad cyhoeddi: 8 Medi 2021

# 1. Trosolwg

### Gofynion hysbysu - yn gryno

Ar 1 Tachwedd 2020 daeth rheoliadau newydd sy'n berthnasol i wasanaethau rhaglenni ar-alw ("**ODPS**") a sefydlir yn y DU i rym. Bu i'r rheolau newydd hyn ddiwygio'r meini prawf a ddefnyddiwyd i benderfynu a fyddai gwasanaeth yn cymhwyso fel ODPS ac felly'n dod o fewn cwmpas y fframwaith rheoleiddio. Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i ddarparwyr ODPS yn y DU gyflwyno hysbysiad ffurfiol o'u gwasanaeth i Ofcom ac mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â gofynion statudol a fwriedir i atal deunydd niweidiol a mathau penodol o hysbysebu a nawdd rhag cael eu cynnwys. Ceir rhagor o wybodaeth am gefndir a chyd-destun deddfwriaethol y rheoliadau wedi'u diweddaru yn y canllawiau a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r datganiad hwn.

Mae'n rhaid i ddarparwyr wneud eu hasesiad eu hunain o p'un a yw eu gwasanaeth yn bodloni'r meini prawf statudol ai beidio, a fyddai'n golygu y dylid hysbysu Ofcom amdanynt. Bwriedir i'r arweiniad Gwasanaethau rhaglenni ar-alw: pwy sydd angen hysbysu Ofcom? ("yr arweiniad terfynol"), a gyhoeddir ochr yn ochr â'r datganiad hwn helpu darparwyr i ddeall a ydynt yn dod o fewn cwmpas y diffiniad o ODPS at ddibenion Deddf Cyfathrebiadau 2003 ("**y Ddeddf**”).

Os yw'n ymddangos i Ofcom fod gwasanaeth yn bodloni'r meini prawf statudol ond nad yw wedi ein hysbysu ni, mae gennym bwerau statudol i ofyn am wybodaeth er mwyn gwneud asesiad, ac i gymryd camau gorfodi os yw darparwr wedi methu â hysbysu. Gall hyn gynnwys cosb ariannol a chyfarwyddo'r darparwr i hysbysu.

Bu i ni ymgynghori ar arweiniad cwmpas drafft ar gyfer darparwyr ODPS rhwng 31 Mawrth a 26 Mai 2021 (gweler: Ymgynghoriad: Gwasanaethau rhaglenni ar-alw: pwy sydd angen hysbysu Ofcom?).

Nod yr arweiniad a gynigiwyd gennym oedd helpu darparwyr gwasanaethau i ddeall:

a) a ydynt yn darparu gwasanaeth sy'n destun y fframwaith statudol ar gyfer gwasanaethau rhaglenni ar-alw (ODPS) o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003; a
b) phryd a sut y gallai fod angen iddynt hysbysu Ofcom am eu gwasanaeth.

Cawsom gyfanswm o dri ymateb gan: Radiocentre; News UK; a Virgin Media. Rydym wedi ystyried pob ymateb yn ofalus wrth gwblhau ein harweiniad a chyhoeddi'r holl ymatebion nad ydynt yn gyfrinachol yn: https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-1/odps-who-needs-to-notify.

Rydym wedi nodi'r ymatebion yn fanwl, a'n casgliadau, yn Adran Dau y ddogfen hon ac wedi cyhoeddi ein harweiniad terfynol ochr yn ochr â'r datganiad hwn.

Gall darparwyr yrru e-bost i Ofcom yn vod@ofcom.org.uk os oes ganddynt unrhyw gwestiynau am y gofynion terfynol o ran hysbysu a chwmpas. Er hynny, ni allwn ddarparu cyngor cyfreithiol am wasanaethau unigol, a chyfrifoldeb i bob darparwr o hyd yw bodloni'r rhwymedigaethau cyfreithiol perthnasol o ran hysbysu.